**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 13 Mehefin, 2024**

**Yng Nghapel Peniel, Ceidio am 7.30 yh**

**<u>Presennol:</u>**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Catherine Hughes

Dafydd Ll Williams

Wynne Davies

Einir Lewis

Phil Roberts

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**
Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhys Jones (Is-gadeirydd), Gareth Roberts, Tesni Jones, Nia M Jones a'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

**<u>Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill</u>**
Cadarnhawyd bod cofnodion 09/05/24 yn gywir gan y Cynghorydd Wynne Davies ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

**<u>Materion yn codi</u>**
Nid oedd unrhyw faterion newydd yn codi.

**<u>Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy</u>**
Darllenwyd ebost Eleri Williams o flaen y Pwyllgor a nodwyd eu bod wedi talu'r siec Yswiriant i mewn i'w cyfrif banc. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cael sgwrs gyda Rhys i drafod y mater.

Trafodwyd y gwaith o goncritio'r Maes Parcio yn Rhydyclafdy, a nodwyd bod angen cysylltu gyda Ken ymhen y mis, i ddilyn i fyny ar y gwaith.

**Gohebiaeth**

**Gosod Plac/Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**
Nodwyd nad oedd unrhyw ddiweddariad wedi ei dderbyn gan Haydn Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llannor ers 29/04/24.

Rhannwyd y cynlluniau gyda phawb, a oedd yn dangos y ffinoedd rhwng Cyngor Cymuned Buan a Chyngor Cymuned Llannor.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Haydn ac yn :

- Rhannu'r cynlluniau hefo hwy.
- Crybwyll bod lleoli'r garreg ar y glaswellt ym Moduan ger yr Eglwys yn gwneud synnwyr, gan ei bod mewn man sâff, ac y byddai pobl yn medru stopio yn y "layby" i'w gweld.
- Crybwyll ein bod yn meddwl y byddai gosod ar ei fyny yn edrych yn well, ac y byddai pobl sy'n ei phasio, yn gallu ei gweld.
- Holi'r Clerc i weld os yw wedi bod mewn cyswllt gyda Mike Tanner / Arwyn Allt Salem?
- Gofyn wrthynt os ydynt yn hapus i mi gysylltu gydag Iestyn Tyne er mwyn gofyn iddo ddechrau ar y gwaith o ysgrifennu'r cwpledi i gofio am Eisteddfod Llyn ac Eifionydd 2023?

Cadarnhawyd y Cynghorydd Wynne Davies ei fod wedi symud y garreg gilbost o'r cae i'r clawdd, a bellach mae mynediad hawdd iddi.

**Casglu Ysbwriel**
Trafodwyd y sefyllfa o'r biniau ysbwriel yn cael eu cadw tu allan i dai ym Mhentre' Rhydyclafdy am ddyddiau ar y tro, yn hytrach na'u cadw'n syth ar ôl eu casgliad wythnosol wedi gwella. Nodwyd CH bod dau gyfeiriad yn parhau i beidio clirio eu biniau - ac yn eu cadw allan am hyd at 18 diwrnod.

Nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn trafod y mater unwaith yn rhagor hefo'r Cynghorydd Sirol.

**Cais Cynllunio**
**Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio o'r newydd wedi dod gerbron y Pwyllgor.**

**Diweddariad Rhif Achos - G23/0281** - Sied fawr wedi cael ei chodi yn Yr Ynys, Boduan heb gais cynllunio. Nodwyd y Clerc ei bod wedi gyrru e-bost i'r Tîm Gorfodaeth 10/06/24 i'w holi am ddiweddariad, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb ganddynt. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu yn uniongyrchol gydag Aneurin Môn Parry, Arweinydd Tîm Gorfodaeth am ddiweddariad.

**Diweddariad Rhif Achos – G24/0092** - Yn ystod cyfarfod Mai daeth consyrn arall i sylw'r Pwyllgor bod sì hefyd bod estyniad yn cael ei godi ar y dŷ "Yr Ynys", hefyd heb gais cynllunio. Nodwyd y Clerc ei bod wedi gyrru e-bost i'r Tim Gorfodaeth 10/06/24 i'w holi am ddiweddariad, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb ganddynt. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu yn uniongyrchol gyda Aneurin Môn Parry, Arweinydd Tîm Gorfodaeth am ddiweddariad.

**<u>Materion ariannol</u>**
Cysoniad banc o ddyddiad:
04/04/24 – 03/05/24 - £8,672.04c
04/05/24 – 03/06/24 - £8,356.85c

Cafodd 4 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200802 | Cyflog y Clerc (Mis 3) | £153.60 |
| Siec Rhif 200803 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 3) | £38.40 |
| Siec Rhif 200804 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yng Nghapel Peniel, Ceidio | £20.00 |
| Siec Rhif 200805 | Costau teithio'r Clerc | £2.25 |

Derbyniwyd y Datganiad Banc Mis Mai 2024 gan y Cynghorwyr.

**<u>Arwyddo ffurflen Lwfans Cynghorydd ar gyfer 2024/2025</u>**.
Nodwyd bod Phil wedi arwyddo'r ffurflen lwfans cynghorydd yn ystod y cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn mynd a'r ffurflenni i gartrefi Rhys a Nia er mwyn eu 'harwyddo, a'u dychwelyd i'r Clerc.

**<u>Unrhyw fater arall</u>**
Nodwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r Adran Briffyrdd i adrodd ar y canlynol :

- Dŵr sylweddol yn codi i lawr o Pen Rhiwgoch ac yna i lawr am bentref Rhydyclafdy, i weld os oes unrhywbeth y gallent ei wneud i osgoi hyn.

- Dad-blocio gwter sydd wrth ymyl yr Hen Bost ym Moduan, mae hi wedi blocio unwaith yn rhagor ac angen ei dad-flocio

- Holi'r Adran Briffyrdd am ddiweddariad am arwydd "BODUAN" a oedd wedi ei leoli ym Mhant Tacho, Boduan.

- Nodwyd bod gyrru drwy bentref Rhydyclafdy yn broblemus. Gofynnwyd pe byddem yn gallu lleoli "Mesuriadur" i fonitro cyflymdra'r ceir sy'n dŵad i mewn i'r Pentref. Consyrn y trigolion yw bod y ceir yn gyrru yn ofnadwy, a'u bod yn ofni, bod criw o blant bychain yn y pentref ar hyn o bryd yn chwarae yng nghanol y Pentref, ac ofn iddynt gael eu taro.

**Archwiliad Mewnol (Cyngor Gwynedd)**

Nodwyd y Clerc ei bod wedi cael cyfarfod Teams gyda Luned Fôn Jones a Bleddyn Rhys (Archwilio Mewnol) 05/06/24. Bydd y Clerc yn cymryd diwrnod i ffwrdd Ddydd Llun 17/06/24 er mwyn cael trefn ar y gwaith papur.

Nodwyd bod rhai dogfennau ganddi yn barod, bydd angen casglu'r rhain a'u cyflwyno wythnos yn dechrau 17/06/24. Mae yna ddogfennau eraill fel y gofrestr risg, cynllun hyfforddiant, a'r adroddiad bioamrywiaeth angen eu drafftio o'r cychwyn.

**Adolygu cyflog y Clerc**

Penderfynwyd i adolygu cyflog y clerc yn ystod y cyfarfod heno.

Bu i'r clerc rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r tasgau mae hi'n ei gwblhau, sef yr oriau maen gymryd i gwblhau'r dyletswyddau, gan rannu taenlen excel hefo hwy. Nodwyd bod y Clerc yn gweithio rhwng 2-4 awr yn ychwanegol pob mis.

Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cynyddu oriau misol y Clerc o 12 awr i 16awr y mis @£16. Hynny'n gweithio allan yn flynyddol yn 16awr y mis @ £16 yr awr x 12 mis = £3,072 y flwyddyn.
Nodwyd y byddai hyn yn weithredol o fis Gorffennaf 2024.
Gofynnwyd i'r Clerc i ddiweddaru'r cytundeb gwaith erbyn cyfarfod Mis Gorffennaf. Gofynnwyd i DLLW wneud y trefniadau gyda BACSTAL i addasu cyflog y Clerc yn syth.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 11/07/24 yng Nghapel Peniel, Ceidio am 7.30yh.